DEDDF GWASANAETHAU BYSIAU (CYMRU) 2026

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 9 Rhagfyr 2025 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 2 Chwefror 2026. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

CRYNODEB

2. Mae 6 Rhan i'r Ddeddf, sy'n cynnwys 49 o adrannau ac un Atodlen.

3. Mae'r Ddeddf yn rhoi prosesau cynllunio a chyd-drefnu'r rhwydwaith gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru o dan reolaeth gyhoeddus. Mae'n disodli'r system ddadreoleiddiedig a gyflwynwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Nod y Ddeddf yw gwneud prosesau cynllunio a darparu'r rhwydwaith bysiau lleol yn fwy effeithlon, cynnig gwell rheolaeth dros wariant cyhoeddus, ac integreiddio'r rhwydwaith bysiau lleol â dulliau trafnidiaeth gyhoeddus eraill yn well.

4. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion sicrhau trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru; pennu manylion allweddol y gwasanaethau hynny yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun"); a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Ymgynghorir ag awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn cyhoeddi'r Cynllun.

5. O dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau gwasanaethau naill ai drwy ymrwymo i gontractau gwasanaeth bysiau lleol â gweithredwyr (h.y., drwy ymrwymo i'r math o drefniadau mewn cysylltiad â gwasanaethau bysiau lleol y cyfeirir atynt yn aml fel gwasanaethau masnachfreinio); drwy roi trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol i weithredwyr; drwy ddarparu gwasanaethau bysiau lleol yn uniongyrchol; drwy ddibynnu ar y ddarpariaeth o wasanaethau eraill penodol, megis gwasanaethau bysiau cymunedol; neu drwy ryw gyfuniad o'r pethau hyn.

6. Mae'r Ddeddf yn codi'r cyfyngiad a osodir yn adran 66 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 ar awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau bysiau, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol neu drwy eu cwmnïau bysiau eu hunain (cwmnïau bysiau cyngor).

7. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhannu data a gwybodaeth. Yr amcan yw galluogi'r cyhoedd i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith bysiau lleol. Bwriedir hefyd gynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth ddatblygu a chynnal a chadw'r rhwydwaith gwasanaeth bysiau lleol.

CEFNDIR CYFFREDINOL

8. Mae prif gorff y gyfraith bresennol mewn perthynas â gwasanaethau bysiau yng Nghymru wedi ei nodi mewn statudau amrywiol, gan gynnwys Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 ("Deddf 1981"), a Deddf Trafnidiaeth 1985 ("Deddf 1985").

9. Mae Deddf 1981 yn sefydlu comisiynwyr traffig ar gyfer ardaloedd traffig yng Nghymru a Lloegr (Rhan 1) ac yn gwneud darpariaeth ynghylch cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a thrwyddedu personau i'w gweithredu (Rhan 2). Nid yw'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf 1981 (yn wir, mater a gedwir i Senedd y DU o dan baragraff 113 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus). Mae'r darpariaethau hyn fodd bynnag yn berthnasol i destun y Ddeddf gan mai un o'r ddau faen prawf cymhwyso posibl ar gyfer ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan y Ddeddf â gweithredwr, neu ar gyfer rhoi trwydded gwasanaeth bysiau lleol i weithredwr o dan y Ddeddf, yw bod rhaid i'r gweithredwr feddu ar drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

10. Mae Deddf 1985 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth lleol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf honno) gael ei gofrestru â chomisiynydd traffig o dan adran 6 o'r Ddeddf honno. Diwygir y ddarpariaeth hon gan y Ddeddf yn ei chymhwysiad i wasanaethau bysiau lleol, fel y trafodir isod.

SYLWADAU AR YR ADRANNAU

Rhan 1 – Cysyniadau Allweddol ac Amcanion Cyffredinol

11. Mae'r Rhan hon yn diffinio'r cysyniadau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf ac yn nodi'r amcanion cyffredinol y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf.

12. Mae **adran 1** yn diffinio "gwasanaeth bysiau lleol" fel gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio un neu ragor o gerbydau gwasanaeth cyhoeddus, sydd ag un neu ragor o fannau esgyn neu fannau disgyn (a ddiffinnir yn **adran 2**) yng Nghymru. Yn ogystal, er mwyn bod yn wasanaeth bysiau lleol, rhaid i bob un o'r mannau y caiff teithwyr ddisgyn oddi ar y gwasanaeth ynddynt fod yn llai na 15 milltir i ffwrdd o'r man esgyn blaenorol, o fesur mewn llinell syth, a rhaid i bob man ar y llwybr rhwng y man esgyn a'r man disgyn fod yn llai na 15 milltir i ffwrdd o bob un o'r mannau hynny o fesur mewn llinell syth.

13. Pan nad yw gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn bodloni'r gofynion a nodir uchod ond bod rhan ohono *yn* bodloni'r gofynion hynny, mae'r rhan honno sydd yn bodloni'r gofynion i'w thrin fel gwasanaeth bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf, ac eithrio **adran 5(1)(a)** a llunio'r Cynllun. (Enghraifft bosibl fyddai gwasanaeth pellter hir rhwng Caerdydd a Llundain sy'n cynnwys ychydig o arosfannau sy'n digwydd bodloni'r diffiniad o wasanaeth bysiau lleol oherwydd eu hagosrwydd: bydd y rhan o'r gwasanaeth sy'n cynnwys yr arosfannau hynny yn wasanaeth bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf, ond ni fydd angen i Weinidogion Cymru ystyried a yw'r arosfannau hynny yn elfen angenrheidiol o'r gwasanaeth pellter hir, at ddibenion penderfynu pa wasanaethau sy'n ofynnol o dan **adran 5(1)(a)**.)

14. Mae rhai gwasanaethau wedi eu heithrio o'r diffiniad o "gwasanaeth bysiau lleol". Y gwasanaethau hynny yw gwasanaethau pan fo pob cerbyd yn cael ei ddefnyddio o dan drwydded a roddir o dan adran 19 o Ddeddf 1985 (trwyddedau ar gyfer cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir gan gyrff addysgol a chyrff eraill), gwasanaethau pan fo pob cerbyd yn cael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau pan fo'r amodau a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1981 wedi eu bodloni, gwibdeithiau neu gylchdeithiau (fel y'u diffinnir yn Neddf 1985), a gwasanaethau yn lle trên (fel y'u diffinnir yn **adran 1(4)(c)** o'r Ddeddf).

15. Mae **adran 3** yn diffinio "gwasanaethau bysiau lleol hyblyg" fel gwasanaethau bysiau lleol sydd mor hyblyg fel nad yw'n ymarferol nodi eu llwybrau at ddibenion y Cynllun. Mae pob gwasanaeth bysiau lleol arall yn "gwasanaeth bysiau lleol safonol". (Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes gan rai gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru lwybrau sefydlog o bosibl, a bod angen i'r system a sefydlir gan y Ddeddf weithio ar gyfer gwasanaethau o'r math hwn.)

16. Mae **adran 4** yn nodi amcanion cyffredinol y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Ddeddf. Nid yw'r amcanion wedi eu trefnu yn ôl pwysigrwydd, ac mae pob amcan yn bwysig ar gyfer darparu'r gwasanaethau.

Rhan 2 – Swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol


17. Mae'r Rhan hon yn nodi'r dyletswyddau craidd a'r swyddogaethau eraill sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol.

18. Mae **adran 5(1)(a)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn gyntaf, benderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol sy'n ofynnol at ddibenion darparu trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru.

19. Yna rhaid i Weinidogion Cymru lunio (mewn ymgynghoriad ag ystod o randdeiliaid), cyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun") sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi manylion allweddol y gwasanaethau bysiau lleol hynny y nodwyd eu bod yn ofynnol at y dibenion a ddisgrifir uchod (**adran 5(1)(b), (2)** a **(3)**).

20. Yna rhaid i Weinidogion Cymru, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, sicrhau'r gwasanaethau bysiau lleol hynny (**adran 5(1)(c)**). Mae'r diagram isod yn nodi sut y caiff Gweinidogion Cymru fodloni'r ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau. Yn y bôn, gall Gweinidogion Cymru sicrhau gwasanaeth drwy ei fasnachfreinio (h.y. drwy ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas ag ef), drwy ei drwyddedu, drwy ei ddarparu'n uniongyrchol, neu drwy ddibynnu ar wasanaethau eraill penodol a ddarperir (**adran 5(5)**). Neu gallant ei sicrhau drwy ddefnyddio unrhyw gyfuniad o'r dulliau hyn (**adran 5(5)**).

21. Fe allai gwasanaeth pellter hir (er enghraifft, bws o Gaerdydd i Lundain) gynnwys elfen a fyddai'n bodloni'r diffiniad o "wasanaeth bysiau lleol". Os felly, gall Gweinidogion Cymru ddibynnu ar y rhan honno o'r gwasanaeth pellter hir (er nad oes rhaid ei hystyried at ddiben penderfynu pa wasanaethau sy'n ofynnol o dan **adran 5(1)(a)**) er mwyn cydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau gwasanaeth bysiau lleol sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun"), os yw hynny'n ffordd briodol ymlaen. (Disgwylir, yn ymarferol, fod elfen pellter byr o wasanaeth pellter hir, fel yn yr enghraifft hon, yn debygol o fod yn destun trwydded gwasanaeth bysiau lleol, yn hytrach na chontract.)



Adran 5: Y Dyletswyddau Craidd
Rhaid i
Weinidogion Cymru
Penderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddiben sicrhau trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru (**adran 5(1)(a)**)
Cyhoeddi Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun") yn nodi **manylion allweddol** y gwasanaethau bysiau lleol hynny (**adran 5(1)(b)**)
Mae darpariaethau pellach sy'n ymwneud â'r Cynllun (**adrannau 6-8**) wedi eu hegluro yn yr ail ddiagram isod
I'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod y gwasanaethau bysiau lleol hynny yn cael eu darparu (**adran 5(1)(c)**)
Caiff Gweinidogion Cymru sicrhau gwasanaethau drwy wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol (**adran 5(5)**):
Manylion allweddol ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol safonol (**adran 5(2)(a)**)
Manylion allweddol ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol hyblyg (**adran 5(2)(b)**)
Ymrwymo i Gontract Gwasanaeth Bysiau Lleol (Masnachfreinio) (**adran 10**)
Y llwybr
(i) ardal ddaearyddol gweithredu'r gwasanaeth
Rhoi Trwydded (**adran 12**)
Prif fannau esgyn a mannau disgyn
(ii) unrhyw rannau o lwybrau sy'n sefydlog
Darparu gwasanaeth yn uniongyrchol (**adran 18**)
(iii) unrhyw fannau esgyn neu fannau disgyn sy'n sefydlog
Dibynnu ar wasanaeth penodol a ddarperir (**adran 19**)

22. Mae **adran 6** yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r broses ar gyfer llunio, cyhoeddi a gosod y Cynllun. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio drafft o'r Cynllun. Wrth wneud hynny, bydd yn ofynnol iddynt roi sylw i ddogfennau penodol ac i swyddogaethau (h.y. pwerau a dyletswyddau) awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Rhaid iddynt hefyd geisio barn pob awdurdod lleol yng Nghymru wrth lunio'r Cynllun drafft. Ar ôl llunio'r Cynllun drafft, bydd angen iddynt ymgynghori â rhanddeiliaid penodedig ar y Cynllun drafft cyn ei gyhoeddi fel Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun"). Bydd angen i Weinidogion Cymru osod y Cynllun gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gyhoeddi.

23. Mae **adrannau 7** ac **8** yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r broses ar gyfer adolygu a diwygio'r Cynllun. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Cynllun yn barhaus a diwygio'r Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i nodi llwybrau a phrif fannau aros gwasanaethau bysiau lleol safonol ac ardaloedd daearyddol, ac unrhyw lwybrau sefydlog neu unrhyw fannau aros sefydlog, gwasanaethau bysiau lleol hyblyg. (Er hynny, mae hyn yn ddarostyngedig i eithriad: nid oes angen diwygio'r Cynllun os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'r diwygiad yn ymwneud â newid na fydd yn parhau i gael effaith am fwy na 14 o ddiwrnodau. Enghraifft bosibl fyddai gwyriad traffig am 5 diwrnod yn adlewyrchu gwaith ffordd, sy'n effeithio ar lwybr bws.) Wrth ystyried a ddylid diwygio'r Cynllun a natur unrhyw ddiwygiad, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddogfennau penodol a swyddogaethau (h.y. pwerau a dyletswyddau) awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Cyn gwneud diwygiad, bydd angen iddynt geisio barn awdurdodau lleol yr effeithir arnynt, llunio Cynllun drafft diwygiedig ac ymgynghori â rhanddeiliaid penodedig ar y Cynllun drafft diwygiedig, oni bai bod yr amodau yn **adran 8(1)(a)** neu **(b)** wedi eu bodloni. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud diwygiad, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun diwygiedig. Yn ogystal, pan fo'r Cynllun yn cael ei ddiwygio, rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r Cynllun gerbron Senedd Cymru, gyda datganiad yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y Cynllun diwygiedig a'r copi o'r Cynllun a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn fwyaf diweddar. Bydd angen gwneud hyn o fewn cyfnod o 13 mis ar ôl y dyddiad y gosodwyd y Cynllun ddiwethaf. Felly, er enghraifft, os bydd copi diwygiedig o'r Cynllun yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru ar 1 Gorffennaf 2029, a bod diwygiadau'n cael eu gwneud iddo ym mis Ionawr 2030, mis Mawrth 2030, a mis Mehefin 2030, bydd angen gosod copi diwygiedig o'r Cynllun yn ymgorffori'r diwygiadau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2030 fan bellaf.

24. Mae **adran 9** yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol pan geisir ei farn ar ddiwygiad arfaethedig i'r Cynllun o dan **adran 8(3)**. Rhaid i awdurdod lleol, wrth roi ei farn, roi sylw i anghenion unigolion yn ei ardal y mae'n ystyried eu bod yn defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau bysiau lleol, y mae'r diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, gan gynnwys yn benodol eu hanghenion mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol. Rhaid i awdurdod lleol hefyd ystyried a oes angen, er mwyn bodloni'r ddyletswydd hon i roi sylw i anghenion pobl leol, ymgynghori â phobl yn ei ardal.

25. Mae'r diagram isod yn nodi rhagor o fanylion ynghylch y broses ar gyfer llunio, cyhoeddi, gosod ac adolygu'r Cynllun.


Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ("y Cynllun")
(adrannau 6-8)
Cyn cyhoeddi – Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft o'r Cynllun (adran 6(1))
Wrth lunio'r drafft o'r Cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru geisio barn pob awdurdod lleol yng Nghymru (adran 6(2))
Ar ôl llunio'r drafft o'r Cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn ei gyhoeddi, ymgynghori ar y drafft â'r personau a restrir yn adran 6(4)
Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, wrth lunio'r drafft o'r Cynllun, roi sylw i (adran 6(3)):
Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
Swyddogaethau awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
Pob cynllun trafnidiaeth rhanbarthol
Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun naill ai yn nhermau'r drafft neu mewn termau eraill gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod ymgynghoriad (adran 6(5))
Wrth ystyried a ddylid diwygio'r Cynllun rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, swyddogaethau awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol perthnasol (adran 7(4))
Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Cynllun gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gyhoeddi (adran 6(6))
Cyn gwneud diwygiad, rhaid i Weinidogion Cymru:
Ceisio barn awdurdodau lleol yr effeithir arnynt a llunio Cynllun drafft diwygiedig
Rhaid i awdurdodau lleol ystyried a oes angen iddynt geisio barn yn eu hardaloedd (adran 9)
Ymgynghori â'r personau a restrir yn adran 8(4) ar y diwygiad a darparu Cynllun drafft diwygiedig iddynt (adran 8(2), (3), (4) a (5))
Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru geisio barn, llunio cynllun drafft nac ymgynghori ar ddiwygiad pan fônt yn ystyried mai bychan yn unig fyddai effaith y diwygiad neu na fyddai'n rhesymol ymarferol ymgynghori ar y diwygiad (adran 8(1))
Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Cynllun yn barhaus. Rhaid iddynt ddiwygio'r Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i nodi manylion allweddol gwasanaethau bysiau lleol a chânt wneud diwygiadau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Cynllun pan na fydd newidiadau i wasanaethau yn parhau am fwy na 14 o ddiwrnodau (adran 7 (1), (2) a (3))
Pan fo angen ymgynghoriad, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r Cynllun naill ai yn nhermau'r Cynllun drafft diwygiedig neu mewn termau eraill gan roi sylw i unrhyw farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad (adran 8(6))
Ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (adran 7(5))
O fewn 13 mis i'r dyddiad y gosodwyd y Cynllun blaenorol, rhaid gosod y Cynllun diwygiedig gerbron Senedd Cymru (adran 7(6))
Rhaid i ddatganiad gyd-fynd â'r Cynllun diwygiedig a chael ei osod gerbron Senedd Cymru yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y Cynllun diwygiedig a'r Cynllun blaenorol a osodwyd gerbron Senedd Cymru

Contractau Gwasanaeth Bysiau Lleol

26. Mae **adran 10** yn darparu i Weinidogion Cymru ymrwymo i gontractau gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol er mwyn cyflawni eu dyletswydd o dan **adran 5(1)(c)**. Bydd contract gwasanaeth bysiau lleol yn rhoi hawl i weithredwr i weithredu un neu ragor o wasanaethau ac yn nodi telerau (gallai'r rhain, er enghraifft, ymwneud â materion megis amlder, amseru, taliadau teithio a safonau gwasanaeth) y bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio â hwy.

27. Dim ond i weithredwyr a chanddynt drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus neu drwydded bysiau cymunedol y gellir dyfarnu contractau gwasanaeth bysiau lleol. Pan ymrwymir i gontract gwasanaeth bysiau lleol mewn perthynas â gwasanaeth bysiau cymunedol (gwasanaeth sy'n bodloni gofynion adran 22(1) o Ddeddf 1985), rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol ac i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio o dan drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â hi.

28. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r rhwydwaith bysiau lleol yng Nghymru yn cael ei grwpio yn becynnau masnachfraint sy'n cynnwys un neu ragor o wasanaethau. Yn ymarferol, er na chrybwyllir hyn yn y Ddeddf, rhagwelir y bydd gweithredwyr yn gwneud cais am gontractau gwasanaeth bysiau lleol fel rhan o ymarfer caffael, a gynhelir yn unol â deddfwriaeth gaffael. (Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Caffael 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.) Rhagwelir mai Trafnidiaeth Cymru, yn y lle cyntaf, fydd yn gweinyddu ac yn rheoli'r broses dendro ar ran Gweinidogion Cymru.

29. Mae **adran 11** yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau yn pennu telerau y mae rhaid eu cynnwys mewn contractau gwasanaeth bysiau lleol (pa un ai ar ffurf safonol ai peidio). Rhoddir enghreifftiau o faterion posibl telerau gofynnol yn yr adran, er nid osodir dyletswydd i wneud darpariaeth o'r math hwn, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn gynhwysfawr.

30. Bwriad y pŵer i bennu telerau gofynnol yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ymhlith y gwahanol weithredwyr yn y rhwydwaith. Er y bydd rhai telerau yn cael eu cynnwys ym mhob contract, bydd hefyd wahaniaethau rhwng gwahanol fathau o gontractau. Mae hyn er mwyn cydnabod pa mor gymhleth yw daearyddiaeth Cymru a pha mor amrywiol yw'r farchnad gweithredwyr.

Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

31. Mae **adran 12** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i roi trwydded i weithredwr yn awdurdodi'r gweithredwr hwnnw i ddarparu gwasanaeth bysiau lleol penodol. Caniateir arfer y pŵer hwnnw i gyflawni dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan **adran 5(1)(c)**, neu pan fo gweithredwr yn dymuno darparu gwasanaeth bysiau lleol nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei sicrhau o dan **adran 5(1)(c)** (er enghraifft, oherwydd nad yw wedi ei bennu yn y Cynllun). (O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen trwydded er mwyn sicrhau nad yw'r gweithredwr yn mynd yn groes i'r cyfyngiad yn **adran 23** ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol, a drafodir isod.) Ni chaniateir i drwydded gael ei rhoi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaeth ond pan na fyddai'r gwasanaeth yn cael effaith andwyol sylweddol ar wasanaethau a ddarperir o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol neu gan Weinidogion Cymru o dan **adran 18**, neu pan na fyddai'n anghyson â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. (Mae'r cyfyngiad hwn yn sicrhau, pan roddir trwydded i weithredwr i weithredu gwasanaeth nad yw'r ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau mewn perthynas ag ef yn gymwys, na fydd y gwasanaeth hwnnw'n cael effaith andwyol ar y gwasanaethau hynny a sicrheir gan Weinidogion Cymru o dan y ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau.) Dim ond i weithredwyr a chanddynt drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus neu drwydded bysiau cymunedol y gellir rhoi trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol. Rhagwelir mai Trafnidiaeth Cymru, yn y lle cyntaf, fydd yn gweinyddu'r system drwyddedu ar ran Gweinidogion Cymru.

32. Mae **adran 13** yn ei gwneud yn ofynnol i drwydded bennu'r cyfnod y mae'n cael effaith ac yn egluro pan fydd trwydded yn peidio â chael effaith.

33. Mae **adran 14** yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr amodau y caniateir eu rhoi ynghlwm wrth drwyddedau ac mae'n pennu, pan roddir trwydded mewn perthynas â gwasanaeth bysiau cymunedol, fod rhaid i'r drwydded ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gael ei ddarparu fel gwasanaeth bysiau cymunedol a bod rhaid i bob cerbyd a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio o dan drwydded bysiau cymunedol ac yn unol â hi. Mae **adran 14** hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu amodau mandadol pellach y mae rhaid eu cynnwys mewn trwyddedau. Rhoddir enghreifftiau o faterion posibl amodau gofynnol yn yr adran, er nid osodir dyletswydd i wneud darpariaeth o'r math hwn, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn gynhwysfawr.

34. O dan **adran 14**, caiff Gweinidogion Cymru ddileu amod sydd ynghlwm wrth drwydded drwy roi hysbysiad i'r perwyl hwn i ddeiliad y drwydded. Mae'r adran hefyd yn darparu y cânt amrywio trwydded drwy roi amod newydd ynghlwm wrthi, neu drwy ddiwygio amod presennol. Ond bydd angen gwneud yr ail fath hwn o newid naill ai gyda chydsyniad deiliad y drwydded, neu o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan **adran 14(2)**. Felly, er enghraifft, os yw rheoliadau a wneir o dan **adran 14(2)** yn pennu amod mandadol i'w gynnwys ym mhob trwydded, ac nad yw'r amod hwnnw eisoes ynghlwm wrth drwydded a roddwyd cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud, caiff Gweinidogion Cymru roi'r amod hwnnw ynghlwm wrth y drwydded heb fod angen cael cydsyniad deiliad y drwydded.

35. Mae **adran 16** yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â dirymu trwyddedau a'u hatal dros dro. O dan **is-adran (1)**, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu trwydded neu ei hatal dros dro os oes unrhyw un neu ragor o'r seiliau yn **is-adran (3)** wedi eu bodloni. Gwneir hyn drwy roi hysbysiad i ddeiliad y drwydded. O dan **is-adran (2)**, rhaid i'r hysbysiad nodi'r sail y caiff y drwydded ei dirymu neu ei hatal dros dro arni, y dyddiad pan fydd y diddymiad neu'r ataliad dros dro yn cymryd effaith, ac (yn achos atal dros dro yn unig), y cyfnod atal dros dro a'r amodau y mae angen eu bodloni cyn diwedd y cyfnod atal dros dro.

36. O dan **is-adran (4)**, gall y dirymiad neu'r ataliad dros dro gymryd effaith ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, neu ar ddyddiad yn y dyfodol a bennir yn yr hysbysiad (er bod hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau o dan **adran 16(5)**). Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i adlewyrchu difrifoldeb ac effaith y sail a nodwyd ar gyfer dirymu'r drwydded neu ei hatal dros dro.

37. Caiff rheoliadau o dan **adran 16(5)** addasu'r seiliau y caniateir dirymu trwydded neu ei hatal dros dro arnynt (gan gynnwys drwy ddileu'r seiliau presennol neu ychwanegu rhai newydd). Cânt hefyd wneud darpariaeth ynghylch pryd y mae dirymiad trwydded neu ataliad dros dro yn cymryd effaith.

38. Mae **adran 17** yn galluogi ceiswyr i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn:
    - Gwrthodiad i roi trwydded,
    - Amodau sydd ynghlwm wrth drwydded, gan gynnwys diwygiad i amod (ond nid yn erbyn amod sydd wedi ei roi ynghlwm wrthi o dan **adran 14(1)**),
    - Dirymiad trwydded,
    - Ataliad trwydded dros dro, hyd yr ataliad dros dro, neu'r amodau y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy yn ystod cyfnod yr ataliad dros dro.

39. Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf, o dan **adran 17(6)**, gadarnhau'r penderfyniad sy'n destun yr apêl, ei ddiddymu, neu roi penderfyniad arall yn ei le.

Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau lleol

40. Mae **adran 18** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaeth bysiau lleol (heblaw am wasanaeth bysiau cymunedol) yn uniongyrchol os ydynt wedi eu bodloni y byddai'n ffordd fwy effeithiol o gyflawni eu dyletswydd yn **adran 5(1)(c)** nag y byddai ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol. Y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru, yn y lle cyntaf, yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol drwy Trafnidiaeth Cymru.

Dibynnu ar wasanaethau penodol (adran 19)

41. Rhagwelir yn ymarferol y bydd y mathau a ganlyn o wasanaethau yn parhau i ddarparu adnodd trafnidiaeth pwysig:
    - Gwasanaethau sy'n gweithredu o dan drwydded o dan adran 19 neu 22 o Ddeddf 1985.
    - Gwasanaethau teithio i ddysgwyr sy'n caniatáu teithwyr sy'n talu am deithio (gweler adran 46(1) o Ddeddf 1981).
    - Gwasanaethau sy'n gweithredu fel y'i disgrifir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1981. (Gwasanaethau a drefnir yn breifat yw'r gwasanaethau hyn, gan bersonau sy'n gweithredu'n annibynnol ar weithredwyr cerbydau. Bydd teithwyr ar y math hwn o wasanaeth i gyd yn talu'r un taliad teithio a byddant yn teithio i'r un cyrchfan. Ni chaiff y gwasanaethau hyn eu hysbysebu i'r cyhoedd.)

42. I gydnabod hyn, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddibynnu ar wasanaeth o'r math hwn er mwyn bodloni'r ddyletswydd yn **adran 5(1)(c)** mewn perthynas â gwasanaeth bysiau lleol, heb orfod ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol na rhoi trwydded i weithredwr y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod angen gwasanaeth bysiau lleol i ysbyty, a bod gwasanaeth a ddarperir o dan adran 22 o Ddeddf 1985 yn diwallu'r angen hwnnw (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol), y gall Gweinidogion Cymru ddibynnu ar y gwasanaeth hwnnw (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau) at ddibenion eu dyletswydd o dan **adran 5(1)(c)**, heb ymrwymo i gontract mewn perthynas ag ef, na rhoi trwydded i weithredwr y gwasanaeth.

Gwasanaethau trawsffiniol

43. Mae **adran 20** yn nodi sut y mae'r Ddeddf yn gymwys i wasanaethau trawsffiniol.

44. Mae gwasanaeth bysiau lleol safonol (fel y'i diffinnir yn **adran 3**) yn wasanaeth trawsffiniol at ddiben yr adran hon os yw llwybr y gwasanaeth wedi ei nodi yn y Cynllun ac os yw rhan o'r llwybr hwnnw yng Nghymru a rhan ohono yn Lloegr. Yn achos gwasanaeth bysiau lleol hyblyg (fel y'i diffinnir yn **adran 3** eto), mae'r gwasanaeth yn wasanaeth trawsffiniol os yw ei ardal weithredu ddaearyddol wedi ei nodi yn y Cynllun, ac os yw'r ardal hon yn cynnwys tir ar y ddwy ochr o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

45. Effaith **adran 20** yw nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau'r rhan o wasanaeth trawsffiniol sy'n gweithredu yn Lloegr, ar yr amod eu bod yn ystyried, hyd yn oed os nad ydynt yn sicrhau'r gwasanaeth, y bydd yr angen am y gwasanaeth yng Nghymru yn cael ei ddiwallu (er enghraifft oherwydd ei fod yn cael ei ddarparu o dan drefniadau a wnaed yn Lloegr). Wrth ystyried a yw hyn yn wir, ni all Gweinidogion Cymru ystyried gwasanaethau a sicrhawyd gan gynghorau sir yn Lloegr o dan adran 63 o Ddeddf 1985 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir sicrhau gwasanaethau sydd eu hangen na fyddent fel arall yn cael eu darparu). Mae'r gwaharddiad hwn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod adran 63 o Ddeddf 1985 ac **adran 20** yn gallu gweithio gyda'i gilydd heb fynd mewn cylchau. Os mai effaith **adran 20** yw nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau'r rhan o wasanaeth trawsffiniol sydd yn Lloegr, mae hyn yn golygu na all y rhan o'r gwasanaeth hwnnw sydd yn Lloegr fod yn destun contract gwasanaeth bysiau lleol, ac ni ellir ei darparu'n uniongyrchol (gan nad yw'r pwerau mewn perthynas â chontractau gwasanaeth bysiau lleol a darpariaeth uniongyrchol ond ar gael pan fo gwasanaeth yn cael ei sicrhau at ddibenion y ddyletswydd yn **adran 5(1)(c)**). Gellid rhoi trwydded gwasanaeth bysiau lleol i'r gweithredwr i weithredu'r rhan o'r gwasanaeth sydd yn Lloegr; ond gan na fyddai'r cyfyngiad yn **adran 23** yn berthnasol i'r rhan o'r gwasanaeth sydd yn Lloegr, ni fyddai rhaid gwneud hynny, gan y gall y rhan o'r gwasanaeth sydd yn Lloegr weithredu heb drwydded gwasanaeth bysiau lleol. (Bydd y rhan o'r gwasanaeth sydd yn Lloegr fodd bynnag yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion a osodir mewn deddfwriaeth mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau o'r math hwn yn Lloegr.)

46. Pan fo'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau'r rhan o wasanaeth trawsffiniol sydd yn Lloegr, gellir sicrhau'r gwasanaeth trawsffiniol hwnnw (p'un a yw yng Nghymru neu yn Lloegr) drwy gontract gwasanaeth bysiau lleol, neu drwydded, neu ddarpariaeth uniongyrchol, neu drwy ddibynnu ar wasanaeth fel y'i disgrifir yn **adran 19**, neu drwy unrhyw gyfuniad o'r dulliau hyn, yn y ffordd arferol.

Gofynion adrodd

47. Mae **adran 21** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad yn nodi'r ffordd y mae arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf gan Weinidogion Cymru dros y cyfnod adrodd wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn **adran 4**, a'r graddau y mae wedi gwneud hynny. (Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chychwyn y Ddeddf.)

48. Rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron Senedd Cymru ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod adrodd. Mewn perthynas â'r adroddiad cyntaf, y cyfnod adrodd yw'r cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau o dan **adran 5(1)(c)** i rym i unrhyw raddau. (Felly, er enghraifft, os daw **adran 5(1)(c)** i rym gyntaf fel o ddyddiad penodol mewn perthynas ag ardal benodol, bydd y cyfnod yn dechrau fel o'r dyddiad hwnnw.) Cyfnodau adrodd dilynol yw cyfnodau olynol o bedair blynedd.

Hysbysiad i'w roi i gomisiynydd traffig

49. Mae **adran 22** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu comisiynydd traffig pan ymrwymir i gontract gwasanaeth bysiau lleol neu pan derfynir gwasanaeth o'r fath; a phan gaiff trwydded gwasanaeth bysiau lleol ei rhoi, ei dirymu neu ei hatal dros dro. Rhaid rhoi'r hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad o dan sylw. Mae comisiynwyr traffig yn gyfrifol am orfodi'r cyfyngiad ar wasanaethau bysiau lleol a sefydlir o dan Ran 3 o'r Ddeddf. Bydd sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth yn ymwneud â gweithredu gwasanaethau bysiau lleol yn eu galluogi i gymryd camau gweithredu priodol pan fo angen.

Rhan 3 – Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol

50. Mae **adran 23** yn gwahardd unrhyw un rhag darparu gwasanaeth bysiau lleol yng Nghymru, oni bai bod y gwasanaeth hwnnw:
    (a) yn ddarostyngedig i gontract gwasanaeth bysiau lleol,
    (b) yn ddarostyngedig i drwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu
    (c) yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru o dan **adran 18**.

51. Mae **adran 23(2)** yn darparu nad yw'r cyfyngiad yn gymwys i wasanaethau bysiau cymunedol (h.y., gwasanaethau a ddarperir o dan drwydded o dan adran 22 o Ddeddf 1985) na gwasanaethau a ddarperir fel y'u disgrifir yn adran 46 o Ddeddf 1981 (h.y., gwasanaethau teithwyr sy'n talu am deithio ar fysiau ysgol). Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaethau bysiau lleol hyn yn gallu gweithredu yng Nghymru heb fod angen rhoi iddynt gontract neu drwydded gwasanaeth bysiau lleol. Mae'r adran hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n dwyn gwasanaethau eraill o fewn y cyfyngiad, neu sy'n eithrio gwasanaethau rhagddo (**adran 23(3)**).

52. Mae **adran 24** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu comisiynydd traffig os ydynt yn ystyried bod person yn gweithredu neu wedi gweithredu gwasanaeth bysiau lleol yn groes i **adran 23**.

53. O dan **adran 25**, os yw comisiynydd traffig wedi ei fodloni bod gwasanaeth yn cael ei weithredu, neu wedi cael ei weithredu, yn groes i'r cyfyngiad ac os yw'r person sy'n gweithredu'r gwasanaeth wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i osgoi torri'r cyfyngiad, caiff y comisiynydd traffig osod cosb ariannol nad yw'n fwy na 110% o'r terfyn uchaf (fel y'i diffinnir yn yr adran) (**adran 25(2)(a)**) a/neu wneud un neu ragor o orchmynion o unrhyw ddisgrifiadau eraill a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (**adran 25(2)(b)**).

54. Pan fo person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn, a naill ai bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau ar apêl, neu fod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei dwyn, gall comisiynydd traffig osod cosb ariannol ychwanegol, eto nad yw'n fwy na 110% o'r terfyn uchaf (fel y'i diffinnir yn yr adran) (**adran 25(3)** a **(4)**). (Er na chyfeirir at hyn yn yr adran, yr effaith yw, mewn achos pan fo mwy nag un gorchymyn wedi ei wneud o dan **adran 25(2)**, ac na chydymffurfiwyd â hwy, y gall y comisiynydd traffig o bosibl osod cosb ychwanegol mewn cysylltiad â phob gorchymyn na chydymffurfiwyd ag ef.)

55. Y terfyn uchaf ar gyfer gweithredwr sydd wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yw'r swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau a ddefnyddir o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan y gweithredwr hwnnw â swm a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu, os nad oes swm wedi ei bennu, â £550. Y terfyn uchaf ar gyfer gweithredwr nad yw wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yw swm a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu, os nad oes swm wedi ei bennu, £550.

56. Mae **adran 26** yn galluogi gwneud apelau i'r Uwch Dribiwnlys, yn erbyn gorchymyn a wneir o dan **adran 25(2)** (mewn perthynas â thorri'r cyfyngiad), a gorchymyn a wneir o dan **adran 25(3)** (mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gorchymyn o dan **adran 25(2)**), ac mae'n darparu i'r Uwch Dribiwnlys gadarnhau'r gorchymyn y dygwyd yr apêl mewn perthynas ag ef, neu ddiddymu'r gorchymyn, neu roi gorchymyn arall yn ei le.

Rhan 4 - Gwybodaeth a data

57. Mae **Rhan 4** yn gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth sydd i'w darparu i Weinidogion Cymru, a gwybodaeth sydd i'w rhoi i aelodau'r cyhoedd.

58. Mae **adran 27** yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr a chyn-weithredwyr gwasanaethau penodol (gwasanaethau bysiau lleol, gwasanaethau adran 19, a gwasanaethau Rhan 3 o Atodlen 1) ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu fod o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran; a rhaid i Weinidogion Cymru ystyried bod ei hangen at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 neu 3 o'r Ddeddf, neu eu swyddogaethau eraill sy'n arferadwy mewn perthynas â chontract gwasanaeth bysiau lleol neu drwydded gwasanaeth bysiau lleol, neu wasanaeth y maent yn dibynnu arno o dan **adran 19** (enghraifft bosibl fyddai monitro phyncerwydd y gwasanaeth a ddarperir o dan gytundeb gwasanaeth bws lleol, at ddibenion contractiol). Rhagwelir y bydd y data a gesglir o dan y ddarpariaeth hon o ddefnydd, yn benodol, wrth lunio a diwygio'r Cynllun. Ni ellir gofyn am wybodaeth os yw'n ymwneud â chyfnod sy'n dod i ben fwy na 5 mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, neu â dyddiad sy'n fwy na 5 mlynedd cyn y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

59. Rhoddir enghreifftiau o'r mathau posibl o wybodaeth y caniateir ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran yn yr adran, er nid osodir dyletswydd i bennu'r mathau penodol hyn o wybodaeth, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn gynhwysfawr.

60. Rhaid i reoliadau a wneir o dan **adran 27** hefyd wneud darpariaeth ynghylch apelau a gallant wneud darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth. Gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid defnyddio gwybodaeth a geir o dan yr adran hon.

61. Mae **adran 28** yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad i awdurdodau lleol neu gynghorau cymuned yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth a bennir yn yr hysbysiad. Rhaid i'r wybodaeth sy'n ofynnol fod o fath a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon, a rhaid i Weinidogion Cymru ystyried bod ei hangen ar gyfer arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2. Y bwriad yw defnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth sydd ar gael i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned, sy'n ymwneud â materion fel llwybrau bysiau, arosfannau bysiau a seilwaith, a fydd yn berthnasol ar gyfer llunio a rheoli'r Cynllun, a helpu i sicrhau gwasanaethau. Rhoddir enghreifftiau o'r mathau posibl o wybodaeth y caniateir ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran yn yr adran, er nid osodir dyletswydd i bennu'r mathau penodol hyn o wybodaeth, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn gynhwysfawr.

62. Mae **adran 29** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn cael ei rhoi i'r cyhoedd. Rhaid i'r rheoliadau hefyd bennu sut a phryd y mae'r wybodaeth i gael ei darparu i'r cyhoedd. Y bwriad yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cyhoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol ar gyfer y math o wybodaeth o dan sylw. Rhoddir enghreifftiau o'r mathau posibl o wybodaeth y caniateir ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran yn yr adran, er nid osodir dyletswydd i bennu'r mathau penodol hyn o wybodaeth, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau yn gynhwysfawr.

63. Mae **adran 30** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau penodol (gwasanaethau bysiau lleol, gwasanaethau adran 19 y dibynnir arnynt fel y'u disgrifir yn **adran 19** o'r Ddeddf, a gwasanaethau Rhan 3 o Atodlen 1 y dibynnir arnynt fel y'u disgrifir yn **adran 19** o'r Ddeddf) ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r wybodaeth a bennir yn y rheoliadau fod yn wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol at ddibenion eu dyletswydd o dan **adran 29** i wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Rhaid i reoliadau a wneir o dan **adran 30** bennu sut a phryd y mae gwybodaeth i gael ei darparu.

64. Mae **adran 31** yn eithrio o'r gofynion rhannu gwybodaeth yn **adrannau 27**, **28** a **30** unrhyw wybodaeth a fyddai'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol mewn achos cyfreithiol.

65. O dan **adran 32**, os bydd comisiynydd traffig wedi ei fodloni bod person, heb esgus rhesymol, wedi methu â darparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad **adran 27** neu reoliadau a wneir o dan **adran 30**, caiff y comisiynydd traffig osod cosb ariannol nad yw'n fwy na 110% o'r terfyn uchaf (fel y'i diffinnir yn yr adran) (**adran 32(2)(a)**) a/neu wneud un neu ragor o orchmynion o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (**adran 32(2)(b)**). Pan fo gweithredwr yn methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan **adran 32(2)**, a naill ai bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau ar apêl neu fod y cyfnod ar gyfer dwyn apêl wedi dod i ben ac nad oes apêl wedi ei dwyn, gall comisiynydd traffig osod cosb ariannol ychwanegol, eto nad yw'n fwy na 110% o'r terfyn uchaf (fel y'i diffinnir yn yr adran) (**adran 32(3)**). (Er na chyfeirir at hyn yn yr adran, yr effaith yw, mewn achos pan fo mwy nag un gorchymyn wedi ei wneud o dan **adran 32(2)**, ac na chydymffurfiwyd â hwy, y gall y comisiynydd traffig o bosibl osod cosb ychwanegol mewn perthynas â phob gorchymyn na chydymffurfiwyd ag ef.)

66. Y terfyn uchaf ar gyfer gweithredwr sydd wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yw'r swm a gyfrifir drwy luosi cyfanswm nifer y cerbydau a ddefnyddir o dan yr holl drwyddedau gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan y gweithredwr hwnnw (ar yr adeg y rhoddir yr hysbysiad o dan **adran 27** neu os yw'r gweithredwr yn methu â darparu gwybodaeth y gofynnir amdani o dan **adran 28)** â swm a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu, os nad oes swm wedi ei bennu, â £550. Y terfyn uchaf ar gyfer gweithredwr nad yw wedi ei drwyddedu i ddefnyddio cerbydau o dan drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yw swm a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu, os nad oes swm wedi ei bennu, £550.

67. Mae **adran 33** yn galluogi gwneud apelau i'r Uwch Dribiwnlys, yn erbyn gorchymyn a wneir gan gomisiynydd traffig o dan **adran 32(2)** neu **(3)**, ac yn galluogi'r Uwch Dribiwnlys i gadarnhau'r gorchymyn y dygwyd yr apêl mewn perthynas ag ef, neu ddiddymu'r gorchymyn, neu roi gorchymyn arall yn ei le.

Rhan 5 - Pwerau a Dyletswyddau Awdurdodau Lleol

68. Mae **Rhan 5** yn diwygio darpariaethau statudol sy'n ymwneud â dyletswyddau a phwerau penodol sydd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau bysiau.

69. Mae **adran 34** yn diwygio adran 66 o Ddeddf 1985 i eithrio awdurdodau lleol yng Nghymru rhag y cyfyngiad, a osodir gan yr adran honno, mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau bysiau lleol gan awdurdod lleol. (Nid yw hyn yn effeithio ar y ffaith, er mwyn darparu gwasanaeth bysiau lleol sy'n ddarostyngedig i'r cyfyngiad yn **adran 23**, y bydd angen i awdurdod lleol fod wedi cael contract gwasanaeth bysiau lleol neu drwydded gwasanaeth bysiau lleol.)

70. Pan fo awdurdodau lleol yn dymuno gweithredu gwasanaethau bysiau'n fasnachol, bydd angen iddynt sefydlu cwmni, a'r disgwyl yw y byddant yn dibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud hyn.

71. Nid yw'r diwygiad a wneir i adran 66 o Ddeddf 1985 yn effeithio ar y ddau gwmni bysiau awdurdod lleol ("Bws Caerdydd" a "Bws Casnewydd") sy'n gweithredu yng Nghymru (yn rhinwedd eithriadau penodol i gyfyngiad yn adran 66) cyn i'r diwygiad i adran 66 ddod i rym. Ffurfiwyd y cwmnïau hyn o dan adran 67 o Ddeddf 1985, yn ddarostyngedig i ofynion a nodir yn adrannau 73 i 79 o Ddeddf 1985, ac nid yw'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gofynion hyn. Fodd bynnag, pe bai awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau bysiau lleol drwy gwmni bysiau a oedd yn bodoli cyn i'r diwygiad i adran 66 ddod i rym yn sefydlu cwmnïau newydd i ddarparu gwasanaethau bysiau, ar ôl i'r diwygiad hwnnw ddod i rym, ni fyddai'r gofynion a nodir yn adrannau 73 i 79 o Ddeddf 1985 yn gymwys i'r cwmnïau newydd hynny.

72. Er na chrybwyllir hyn yn y Ddeddf, bydd adrannau 67 i 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) 1995 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gwmnïau a sefydlir gan awdurdodau lleol o dan y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau, unwaith y bydd y cyfyngiad yn adran 66 wedi ei ddileu (gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw gwmnïau newydd a ffurfir gan awdurdodau lleol a oedd yn darparu gwasanaethau bysiau lleol cyn i'r diwygiad i adran 66 ddod i rym, fel y trafodwyd uchod).

73. Mae **adran 35** yn diwygio adran 63 o Ddeddf 1985. Effaith y diwygiad yw na fydd y gofyniad a osodir gan yr adran honno (i gyngor sir sicrhau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion trafnidiaeth yn y sir, pan na fyddai'r anghenion hynny'n cael eu diwallu fel arall, er enghraifft pan fo methiant yn y gwasanaeth neu pan na chaiff gwasanaethau eu darparu i'r safon briodol) yn gymwys i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau lleol. Rhagwelir, o dan y system a sefydlir gan y Ddeddf, y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn dibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol pan fônt yn dymuno darparu gwasanaeth bysiau lleol (ac, oni bai bod y gwasanaeth o dan sylw y tu hwnt i'r cyfyngiad yn **adran 23**, bydd contract gwasanaeth bysiau lleol neu drwydded gwasanaeth bysiau lleol yn ofynnol mewn perthynas â'r gwasanaeth).

74. Mae **adran 36(1)** yn rhoi i awdurdodau lleol y pŵer i roi cymorth ariannol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth bysiau lleol. Effaith **adran 36(2)** yw nad yw'r gofynion yn adrannau 89 i 92 o Ddeddf 1985 yn gymwys i gymorth ariannol a roddir o dan **is-adran (1)**. Nid yw hyn fodd bynnag yn eithrio awdurdodau lleol rhag cyfyngiadau statudol presennol o ran darparu cymorthdaliadau yn Neddf Rheoli Cymhorthdal 2022 nac unrhyw gyfyngiadau statudol cymwys yn y dyfodol o ran cymorthdaliadau. Mae **adran 36(3)** hefyd yn diwygio adran 63(9) o Ddeddf 1985. Effaith y diwygiad yw nad yw awdurdodau lleol yn gallu hyrwyddo gwasanaethau bysiau lleol, gan ddefnyddio eu pŵer o dan adran 63(6)(a), sydd wedi cael cymhorthdal o dan **adran 36(1)** o'r Ddeddf.

Rhan 6 - Amrywiol a Chyffredinol

75. Mae **adran 37** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu amgylchiadau pan drinnir rhai trefniadau penodol a wneir o dan y Ddeddf (er enghraifft, ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol) fel pe baent yn arwain at drosglwyddiad sydd o fewn Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("Rheoliadau TUPE"), pan na fyddai hyn wedi bod yn wir fel arall. Rhaid i'r rheoliadau hefyd gymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Pensiynau 2004 a rhai a wneir o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â throsglwyddiad o'r math hwn. Byddai hyn yn golygu os, cyn y trosglwyddiad, oedd cynllun pensiwn galwedigaethol yr oedd y cyflogwr yn cyfrannu ato ar gael i'r cyflogai a drosglwyddwyd, neu os byddai cynllun o'r fath wedi bod ar gael iddo pe bai wedi ei gyflogi gan y trosglwyddwr am gyfnod hirach, yna rhaid i'r cyflogwr newydd sicrhau'r lefel ragnodedig o leiaf o ddarpariaeth pensiwn ar gyfer y cyflogai ar ôl y trosglwyddiad.

76. O dan **adran 37(2)(b)**, mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i wneud darpariaethau atodol mewn rheoliadau mewn cysylltiad â chymhwyso Rheoliadau TUPE.

Deddf Trafnidiaeth 1985: cofrestru gwasanaethau â chomisiynydd traffig

77. Mae adran 6 o Ddeddf 1985 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr gwasanaeth lleol (fel y'i diffinnir yn Neddf 1985) gofrestru ei fanylion â chomisiynydd traffig. Mae **adran 38** yn diwygio adran 6 i ddatgymhwyso'r gofyniad hwn yn achos gwasanaeth sy'n wasanaeth bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf. Fodd bynnag, effaith y diwygiadau i adran 6 yw y bydd yn ofynnol o hyd i wasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau a ddarperir o dan adran 46 o Ddeddf 1981 (y ddau ohonynt yn wasanaethau bysiau lleol) gofrestru oni bai eu bod yn cael eu gweithredu o dan gontract gwasanaeth bysiau lleol neu drwydded gwasanaeth bysiau lleol. Mewn achos pan fo trwydded gwasanaeth bysiau lleol wedi ei hatal dros dro, trinnir y drwydded fel pe bai'n dal i gael effaith at y diben hwn. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw gwasanaeth bysiau cymunedol neu wasanaeth a ddarperir o dan adran 46 o Ddeddf 1981 yn dychwelyd i'r gyfundrefn gofrestru yn adran 6 am fod y drwydded gwasanaeth bysiau lleol a roddwyd mewn perthynas ag ef wedi ei hatal dros dro.

78. Yng nghyd-destun gwasanaethau trawsffiniol, effaith y diwygiadau i adran 6 yw pan fo gan wasanaeth bysiau lleol safonol unrhyw fannau aros y tu allan i Gymru, neu unrhyw fan y tu allan i Gymru lle y caiff teithwyr ofyn i fynd ar y gwasanaeth neu oddi arno, bydd angen cofrestru'r rhan o'r gwasanaeth sy'n gweithredu yn Lloegr (a dim ond y rhan honno) â'r comisiynydd traffig o hyd. Pan fo unrhyw ran o ardal weithredu gwasanaeth bysiau lleol hyblyg y tu allan i Gymru, bydd hefyd angen cofrestru'r rhan o'r gwasanaeth sy'n gweithredu yn Lloegr (a dim ond y rhan honno) â'r comisiynydd traffig o hyd.

79. Mae **adran 39** yn darparu pan fo (yn rhinwedd **adran 38**) gwasanaeth bysiau lleol yn peidio â bod yn wasanaeth lleol at ddiben adran 6 o Ddeddf 1985, bod cofrestriad y gwasanaeth hwnnw o dan adran 6 o Ddeddf 1985 yn peidio â chael effaith yn awtomatig.

Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr y cael eu darparu

Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

80. Mae adran 7 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu pan fo angen amdanynt na fyddai'n cael ei ddiwallu fel arall. Mae **adran 40** yn diwygio adran 7 gyda'r effaith nad yw'r pŵer hwn ar gael mwyach mewn perthynas â gwasanaethau sy'n wasanaethau bysiau lleol at ddibenion y Ddeddf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gwasanaethau bysiau lleol yn cael eu sicrhau o dan y system newydd a sefydlir gan y Ddeddf. Mae **adran 40(4)** yn mewnosod is-adran newydd (4B) yn adran 7. Effaith hyn yw sicrhau bod contract gwasanaeth bysiau lleol wedi ei eithrio rhag y cyfyngiad yn adran 7(4) o Ddeddf 2006. Mae'r cyfyngiad hwnnw'n gymwys i "agreements providing for service subsidies": byddai'r diffiniad o'r cytundebau hyn a roddir yn adran 7(6) fel arall yn dal contract gwasanaeth bysiau lleol.

Deddf Trafnidiaeth 2000: cynlluniau awdurdod lleol

81. Effaith adran 41 yw dileu pwerau pob awdurdod lleol i wneud cynlluniau partneriaeth ansawdd, cynlluniau contractau ansawdd, a chynlluniau tocynnu ar y cyd o dan adrannau 114, 124 a 135 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (yn y drefn honno). Bydd unrhyw gynlluniau partneriaeth ansawdd, cynlluniau contractau ansawdd neu gynlluniau tocynnu ar y cyd sydd ar waith yng Nghymru ar yr adeg y cychwynnir y ddarpariaeth yn peidio â chael effaith. Mae'r diddymiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai'r cynlluniau hyn, o'u cadw, wrthdaro â thelerau contractau gwasanaeth bysiau lleol a thrwyddedau gwasanaeth bysiau lleol.

Cyffredinol

82. Mae adran 42 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Ddeddf ac yn nodi'r gweithdrefnau a fydd yn gymwys i offerynnau statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau, ar gyfer hynny gweler adrannau 37C a 37E o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

83. Mae adran 43 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf (neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf) sy'n darparu i berson gael ei hysbysu am rywbeth, neu i ddogfen gael ei rhoi i berson. Mae'n nodi sut y mae'r hysbysiad neu'r ddogfen i gael ei ddarparu neu ei darparu.

84. Mae adran 46 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau deilliadol, atodol, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed, os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu o ganlyniad iddi; neu os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf.

85. Mae adran 47 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r Deddfau a ganlyn-

- Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984
- Deddf Trafnidiaeth 1985
- Deddf Trafnidiaeth 2000
- Deddf Trafnidiaeth Leol 2008

86. Mae adran 48 yn nodi sut y bydd darpariaethau'r Ddeddf hon yn dod i rym. Mae adrannau 1 i 3, 5(6) a (7), 11, 14(2) a (3), 15(1) a (2), 27(3)(b), (4) a (5), 28(3)(b) a (4), 29(2) i (5), 30, 32(2)(b), (8), (9)(a)(i) a (9)(b)(i) a 42 i 46, 48 a 49 yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

87. Daw adrannau 4 a 21 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw darpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar ba ddiwrnod bynnag a bennir drwy orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff gorchymyn cychwyn gynnwys darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, a chaiff ddarparu i ddarpariaethau ddod i rym ar ddiwrnodau gwahanol mewn perthynas ag ardaloedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol. Rhagwelir y bydd darpariaethau penodol, gan gynnwys y ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru i sicrhau gwasanaethau o dan adran 5(1)(c), yn cael eu dwyn i rym drwy orchymyn ar sail fesul parth, er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r system newydd.

88. Mae gorchymyn cychwyn i'w wneud drwy offeryn statudol Cymreig ac i'w osod gerbron y Senedd ar ôl ei wneud.

Enw byr

89. Mae adran 49 yn nodi enw byr y Ddeddf, y caniateir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

90. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar **wefan y Senedd**.

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	31 Mawrth 2025
Cyfnod 1 - Dadl	16 Medi 2025
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	17 Medi 2025
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	2 Rhagfyr 2025
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	9 Rhagfyr 2025
Y Cydsyniad Brenhinol	2 Chwefror 2026